

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Llannon

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae'r pennaeth dros dro yn cydweithio'n llwyddiannus â'r staff i wneud yr ysgol yn lle hapus i ddisgyblion. Mae'n arwain yr ysgol yn effeithiol mewn ffordd dawel ond hyderus ac yn canolbwyntio'n dda iawn ar wella dysgu a lles disgyblion. Ynghyd â'r arweinwyr eraill, mae'n gwybod beth yw cryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella ac mae ganddynt ffyrdd effeithiol i wneud y gwelliannau hyn.

Mae'r ysgol yn lle diogel sy'n canolbwyntio'n dda ar bethau fel parch, lles a gofal, a gwneud y disgyblion yn falch o'u cymuned ac o Gymru. Maent yn annog disgyblion i fod yn hapus, i fwynhau dysgu ac i ymddwyn yn ardderchog. O ganlyniad, mae bron bob un disgybl yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn teimlo bod oedolion yn eu parchu, yn eu trin yn deg ac yn gwrando arnynt pan fydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae gan yr ysgol nifer o bwyllgorau sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldebau, a datblygu medrau arwain effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff eraill yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn monitro'r dysgu yn rheolaidd ac yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion, pan fydd angen. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Un o gryfderau'r ysgol yw sut mae disgyblion o bob cefndir ieithyddol yn dod i siarad Cymraeg yn fuan. Mae athrawon a chynorthwywyr yn ymateb yn dda i waith disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddysgwyr effeithiol sy'n cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu dysgu.

Mae athrawon yn ystyried syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn gwneud y dysgu'n fwy diddorol iddynt. Maent yn aml yn cynllunio gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ymarfer y medrau maent wedi eu dysgu mewn gwahanol gyd-destunau diddorol. Er hyn, ar adegau, nid oes cyswllt digon agos rhwng y medrau mae disgyblion yn eu hymarfer yn y gweithgareddau hyn a'r rhai y maent wedi eu dysgu mewn sesiynau blaenorol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio gweithgareddau priodol i gyfoethogi'r dysgu, sy'n galluogi disgyblion i ymarfer a chymhwyso'r union fedrau maent eisoes wedi cael profiad ohonynt mewn gwahanol gyd-destunau**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.